Gorchymyn Drafft a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 35(3) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

OFFERYNNAU STATUDOL
DRAFFT CYMRU

2008 Rhif (Cy.)

COMISIYNYDD POBL HŶN CYMRU, CYMRU

Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Diwygio) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007 ("Rheoliadau 2007") a wnaed o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Mae Rheoliadau 2007 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â swyddogaethau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Maent yn cynnwys gofynion ynghylch y Cynulliad ar gyfer rhoi gwybodaeth gan bersonau rhagnodedig, darparu cymorth i bobl hŷn mewn achosion rhagnodedig, archwilio disgrifiadau penodedig o achosion a pharatoi a dosbarthu adroddiadau penodol.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") yn gwneud darpariaethau newydd i Lywodraeth Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn addasu Rheoliadau 2007 fel yr ystyrir sy'n briodol o ganlyniad i Ddeddf 2006. Addesir pob cyfeiriad at y Cynulliad yn Rheoliadau 2007 er mwyn pennu a ydyw'n gymwys i'r Cynulliad fel y cyfansoddwyd ef gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; Llywodraeth Cynulliad Cymru; Comisiwn y Cynulliad; y Cynulliad (fel y cyfansoddwyd ef gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006); Gweinidogion Cymru; y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif (Cy.)

COMISIYNYDD POBL HŶN CYMRU, CYMRU

Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Diwygio) 2008

Gwnaed	*2008*
Yn dod i rym	*2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 5(4)(b) a 6(5), 8(1)(e), 10(1) a (5), 15(1) a (3) o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2006 a pharagraff 8 o Atodlen 1 iddi(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Yn unol â pharagraff 35(3) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**3**), cafodd drafft o'r Rheoliadau hyn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar xxxxxx 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

2. Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) Diwygiwyd Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) 2007 (O.S. 2007/1388).

(**2**) Trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru drwy weithrediad paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) 2006 p.32 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) (O.S. 2007/1388).

ystyr "y Cwnsler Cyffredinol" (*"the Counsel* General) yw'r person a benodir o dan adran 49 o Ddeddf 2006;

ystyr "y Cynulliad" (*"the Assembly"*) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y cyfansoddwyd ef gan adran 1 o Ddeddf 2006;

ystyr "Cynulliad 1988" (*"the 1998 Assembly*) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y cyfansoddwyd ef gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**);

ystyr "Deddf 2006" (*"the 2006 Act"*) yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**);

ystyr "y Ddeddf" (*"the Act"*) yw Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006(**3**);

ystyr "Gweinidogion Cymru" (*"the Welsh Ministers"*) yw'r personau a benodir o dan adran 48 o Ddeddf 2006;

ystyr "Llywodraeth Cynulliad Cymru" (*"the Welsh Assembly Government"*) yw Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y'i diffinnir gan adran 45(1) o Ddeddf 2006;

ystyr "y Prif Weinidog" (*"the First Minister"*) yw'r person a benodir o dan adran 48 o Ddeddf 2006.

Diwygio Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007

3.—(1) Diwygir Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007 yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 4 (rhoi gwybodaeth gan bersonau rhagnodedig)—

(a) yn is-baragraff (a) o baragraff (2)—

(i) ar ôl "ac aelodau a chyflogeion" mewnosoder "Llywodraeth Cynulliad Cymru";

(ii) yn lle "y Cynulliad" mewnosoder "Cynulliad 1998"; a

(iii) ar ôl "Cynulliad 1998" mewnosoder "a Llywodraeth Cynulliad Cymru";

(b) ym mharagraff (3)—

(i) yn lle "yw'r Cynulliad" mewnosoder "yw Cynulliad 1998"; a

(ii) ar ôl "Cynulliad 1998," mewnosoder "Llywodraeth Cynulliad Cymru,".

(3) Yn rheoliad 5 (rhoi cymorth mewn achosion)—

(a) yn is-baragraff (c) o baragraff (2)—

(**1**) 1998 p.38.
(**2**) 2006 p.32.
(**3**) 2006 p.30.

(i) yn lle “y Cynulliad” mewnosoder “Gynulliad 1998”; a

(ii) ar ôl “Gynulliad 1998” mewnosoder “, Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu’r Cwnsler Cyffredinol”.

(4) Yn rheoliad 8 (achosion sy’n destun archwilio)—

(a) ym mharagraff (c)—

(i) yn lle “gan y Cynulliad” mewnosoder “gan Gynulliad 1998”; a

(ii) ar ôl “Gynulliad 1998” mewnosoder “, Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu’r Cwnsler Cyffredinol”.

(5) Yn rheoliad 11 (rhoi gwybodaeth mewn cysylltiad ag archwiliad)—

(a) yn is-baragraff (a) o baragraff (3)—

(i) ar ôl “ac aelodau a chyflogeion” mewnosoder “Llywodraeth Cynulliad Cymru”;

(ii) yn lle “y Cynulliad” mewnosoder “Cynulliad 1998”; a

(iii) ar ôl “Cynulliad 1998” mewnosoder “a Llywodraeth Cynulliad Cymru”;

(b) ym mharagraff (4)—

(i) yn lle “yw’r Cynulliad” rhodder “yw Cynulliad 1998”;

(ii) ar ôl “Cynulliad 1998” mewnosoder “Llywodraeth Cynulliad Cymru,”; a

(iii) yn lle “gan y Cynulliad” rhodder “gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu’r Cwnsler Cyffredinol”.

(6) Yn rheoliad 14 (adroddiadau) yn lle is-baragraff (b) o baragraff (5) rhodder “i’r Cynulliad a Dau Dŷ’r Senedd”.

(7) Yn rheoliad 15 (camau pellach yn sgil adroddiad) ym mharagraff (1) yn lle “y Cynulliad” rhodder “Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu’r Cwnsler Cyffredinol”.

(8) Yn rheoliad 16 (adroddiadau i’r Cynulliad)—

(a) ym mharagraff (1) yn lle “i’r Cynulliad” rhodder “i’r Prif Weinidog”;

(b) ym mharagraff (2) yn lle “i’r Cynulliad” rhodder “i’r Prif Weinidog”;

(c) yn lle paragraff (4) rhodder—

“Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i’r Comisiynydd, erbyn 1 Hydref bob blwyddyn fan bellaf, anfon copi o’r adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1), (2) a (3) at y Cynulliad a dau Dŷ’r Senedd”.

[Llofnod]

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

[Dyddiad]